



Covid-19 – Sut rydyn ni'n ymateb i'r pandemig



Neges gan ein Prif Weithredwr Philip Blaker

Nid oedd unrhyw un eisiau canslo arholiadau eleni, ond o ystyried yr amgylchiadau eithriadol, nid oedd dewis arall realistig.

Rydym yn gwybod y gallai fod gennych nifer o gwestiynau am yr hyn fydd yn digwydd nesaf. Sut mae graddau'n mynd i gael eu dyfarnu? Pa gwybodaeth mae ysgolion a colegau eisiau? Beth fydd yn digwydd o ran cymwysterau galwedigaethol? Dim ond rhai cwestiynau yn unig yw'r rhain.

Rydym yn gweithio'n agos gyda'n cyd-reoleiddwyr yn Lloegr ac yng Ngogledd Iwerddon, yn ogystal â Llywodraeth Cymru, CBAC a chyreff dyfarnu eraill er mwyn dod o hyd i'r atebion hynny i chi.

Mae pob un ohonom mewn sefyllfa anghyfarwydd ac nid oes gennym yr holl atebion eto. Ond rydym yn gweithio'n ddiwyd i ddod o hyd iddyn nhw a byddwn yn rhoi gwybod i chi cyn gynted ag y byddant ar gael, drwy ein gwefan, ein sianeli cyfryngau cymdeithasol a rhifynnau arbennig o'r Llechen.

Rydym wedi sefydlu hyb arbennig ar ein gwefan lle byddwn yn rhannu'r holl wybodaeth ddiweddaraf gennym ni, Llywodraeth Cymru a CBAC.

Mae adran '[Cwestiynau Cyffredin](#)' sy'n cael ei diweddarau'n ddyddiol, ac rydym yn cyhoeddi blogiau gan fi ac aelodau eraill o staff uwch sy'n cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf.

Mae ein tîm Cysylltiadau Allanol hefyd yn cysylltu'n ddyddiol â Swyddogion Arholiadau mewn canolfannau ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt drwy eu porth pwrpasol.

Drwy gydol y cyfnod cythryblus hwn ein blaenoriaeth yw sicrhau bod dysgwyr ledled Cymru yn cael eu trin yn y ffordd decaf posibl.

Gallwch ddod o hyd i'r datganiadau canlynol gennym ni a Llywodraeth Cymru ar y [ddolen](#) hon.

- Datganiad Cymwysterau Cymru ar y penderfyniad i ganslo arholiadau haf 2020.

- Datganiad gan y Gweinidog Addysg, Kirsty Williams, ar gau ysgolion yng Nghymru.
- Datganiad ar arholiadau haf 2020 gan Lywodraeth Cymru.
- Llythyr y Prif Weithredwr, Philip Blaker i ganolfannau ynglŷn â chanslo arholiadau.
- Datganiad Cymwysterau Cymru ar gyhoeddi graddau ar gyfer cymwysterau yn haf 2020.
- Datganiad Cymwysterau Cymru ar ddull haf 2020 o ran dysgwyr UG a Blwyddyn 10 yng Nghymru.

Blogiau

- [Amseroedd anodd i bob un ohonom](#)
- [Sawl ateb i gwestiynau cymhleth ynghyd at Cymwysterau Galwedigaethol](#)

To subscribe to our mailing list for the Slate, please click [here](#).

I danysgrifio i'n rhestr bost ar gyfer Y Llechen, cliciwch [yma](#).

The Slate: Qualifications Wales's monthly newsletter for the education sector

You can follow us on social media for the latest news on our work:



Copyright © 2020 Qualifications Wales All rights reserved.

Contact us:

comms@qualificationswales.org

Click [here](#) to unsubscribe or to change your Subscription Preferences.